Cofnodion o Gyngor Cymuned Llanbedr wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers 2 flynedd. Yn y Neuadd Bentref yn Llanbedr am 7.30 o'r gloch 2.6.22

1.Yn bresennol – cyfarfod llawn

Annwen Hughes, Gwynfor Owen (cynrychiolwyr Cyngor Gwynedd) Eirwyn Thomas (Cadeirydd) Kevin Titley, Helen Johns, Robin Ward, Jane Taylor Williams (Cynghorydd Newydd) Luise Helen Vassy (Cynghorydd Newydd)

2. Dim ymddiheuriadau

3.Buddiant – dim I'w adrodd

4.Gair gan y Cadeirydd – croesawu pawb I'r cyfarfod , y tro cyntaf I ni gyfarfod a gallu parcio yn y Maes Parcio y Neuadd.

5. Derbyn cofnodion cyfarfod mis Ebrill a Mai fel rhai cywir.

6. Adran Cyllid

Nododd y Clerc bod cyfrifon wedi eu harchwilio gan y Cyfrifydd Mewnol. Pob dim yn iawn ac eithrio bod yna risg yn bosib gyda bank charges. Nid oeddem wedi rhoi hwn yn y gyllideb.

Arian yn y banc diwedd Mai ydoedd £25791.53

Angen talu Aelodaeth Parish Online £90

Bydd anfoneb gan Catrin hefyd maes o law.

Agor beddi hefyd

Torri Fynwent hefyd a torri cae chwarae.

Cymeradwyo y taliadau yma .

7. Materion yn codi o'r cofnodion

a) Daeth yn amser I bleidleisio dros gyfethol aelodau I lenwi 3 sedd wag ar y Cyngor. 9 wedi rhoi enwau gerbron.

Darllennodd y Clerc ychydig o eiriau am bob ymgeisydd, ac yna bu I'r Cyngor bleidleisio, pleidlais gudd. Dyma y rhai a ddaeth I'r brig. Annwen Hughes, John Evans a Nia Jones.

Pasiwyd bod y Clerc yn anfon at y gweddill yn diolch iddynt am ddangos diddordeb ac bod digon o le I helpu yn wirfoddol .

b) Datgan buddiant a derbyn swydd – llenwi ffurflenni.

c) Ffordd Newydd –

Deiseb yn cael bod yn agored am gyfnod eto. I fod I gau ar y 23.5.22

Bod Cyngor Gwynedd mewn trafodaethau , pethau wedi dod I stop oherwydd yr etholiadau. Felly fawr o Newydd.

Cynnig gan TFW eisiau gweld 5 bws ar y rhwydwaith drwy Llanbedr.

Hyn yn wirion medd JT gan eu bod wedi lleihau a newid amseroedd busiau yn yr ardal.

RW yn nodi bod yn rhaid bod yn bositif.

AH – ein bod yn cario'n 'mlaen gyda cyfarfod gyda'r heddlu a Priffyrdd.

GO – bod Cyngor Gwynedd drwy Dafydd Wyn wedi ymateb drwy awgrymu bod mwy o waith ar yr rhwydwaith ffyrdd o Penrhyndeudraeth hyd at Bermo.

d) Gwefan Newydd – hon yn bron yn barod. Bod Delyth Williams wedi gorfod ail deipio y rhan fwyaf o'r dogfennau er mwyn cyrraedd y safon disgwyliedig.".Darllen" yn unig fydd y cofnodion ar y wefan.

e) Llwybrau Cyhoeddus – heb dderbyn ymateb gan Evergreen. Derbyn e bost gan AH yn rhoi cyfeiriad un arall sydd yn gneud Gwaith fel hyn o Lanuwchllyn.

f) Gorsaf Talwrn Bach – parthed mapiau llwybrau a mabwysiadu.

Gwyddom bod un person eisioes wedi mabwysiadu yr Orsaf yma.

Heb glywed gan GP parthed pris ar gyfer map y llwybrau.

Bod gan RW ddiddordeb mewn helpu gyda mabwysiadu yr Orsaf gyda y person arall yma.

Y Clerc I hysbysu Melanie o TFW am hyn.

8. Cynllunio – dim byd I law.

9. Materion Cyngor Gwynedd – gan AH a GO.

Llinellau melyn – dal dim ymateb, wedi gorfod mynd yn ol I gyfnod ymgynghori. Yn nwylo'r Cyfreithwyr Cyngor Gwynedd.

Coed yn yr afon Artro – Bod Asianteth yr Amgylchedd yn mynd I'w hasesu.

Ffordd Rhiw Garth Goch – wedi ei wneud.

Twll yn y ffordd ger Kiosg Llanbedr – y Gwaith heb ei wneud, ond mae Dwr Cymru wedi cael rhybudd 83 I wneud y safle yn saff.

3 Bryn Deiliog – wedi cael cyfarfod parthed hwn. Gwastraff ar amser, eu penderfyniad wedi ei wneud. 3 ymgeisydd am y ty.

System te gyda PCSO – I drafod syniadau. Hyn yn digwydd eisioes mewn mannau.

Nododd GO bod AH ac yntau wedi cael profiad gyda'r PCSO Paula Steward I fesur cyflymdra modurwyr ger Harlech yn ddiweddar. Maen't yn chwilio am wirfoddolwyr I wneud y Gwaith hyn. (Rhoi henwau I GO.).

10. Cae Chwarae – wedi holi G.L.Jones Bethesda am archwiliad I'r offer. Ond heb gael ymateb ganddynt. Holi eto.

11. Coed yn yr afon – eisioes wedi trafod hwn.

12. Goriadau bwrdd hysbysebu – nododd y Clerc bod Tanet Griffiths wedi helpu gyda hyn. Bod Vernon Watts wedi rhoi goriadau I'r Pentref, angen diolch iddo.

13. Angen aelodau ar wahanol bwyllgora. Pasiwyd I ofyn I Iolyn Jones, Gruffydd Price a Caroline Evans a fyddent gyda diddordeb gwirfoddoli parthed Prosiect Llwybrau Llanbedr. Dewis Cynghorydd I gyd weithio gyda hwy.

14. Angen is gadeirydd. Pasiwyd gadael hwn tan cyfarfod nesaf o'r Cyngor – gan bydd yna gyngor llawn erbyn hynny.

MATERION ERAILL YN CODI

1.Cae chwarae

Nododd JT bod John Williams wedi trwshio y sedd bicnic yn cae chwarae. Diolch iddo am ei waith.

Hefyd bod y polion goliau yn y cae chwarae angen eu gwaredu. Maent mewn sefyllfa bregus yn awr, wedi cancro. Bod HW am eu gwaredu. Wedl gadael yr un agosa at Glanffrwd a tynnu y llall.

Angen edrych a oes modd cael grant I archebu un Newydd yma. Y Clerc I holi am grantiau Magnox a Sport Lot. Mantell Gwynedd – cist Gwynedd hefyd.

2. Parti Pentref 6.6.22 (fel rhan o ddathliadau Jubilee.) AH yn awgrymu dylid cyfrannu o goffra Cyngor tuag at hwn. Nododd y Clerc nad yw wedi ei osod yn y gyllideb. Falle fyddai y trefnwyr yn anfon llythyr I ofyn am gyfraniad tuag at cyfraniad.

3. KT – tybiau blodau o amgylch y pentref? Pwy sydd yn gwneud rhain yn awr?

4. AH a KT – angen son wrth yr heddlu a Cyngor Gwynedd parthed safle parcio anabl ger mynedfa ffordd Mochras. Byddai gwaredu hwn yn gymorth gyda llif traffic ar y bont.

5. JT – bod llawer yn manteisio ar llefydd pasio ar ffordd Cypla, er mwyn parcio ynddynt. Mae angen cael arwyddion "Man Pasio" arnynt.

6. JT – yn nodi bod safle ger y bont at yr afon, ger Glennydd yn fler, llawn o sbwriel a baw cwn.

7. Nododd RW bod perchennog Maes Artro yn awyddus I gyfeirio tir o'I eiddo ar gyfer codi tai fforddiadwy. Holi a fyddai Cyngor Cymuned yn cymeradwyuo hyn. I dai cymdeithasol megis Adra neu Cynefin.

Nododd y Cyngor y byddai ganddynt ddim gwrthwynebiad I hyn, ond yn dibynnu ar yr union eiriad mewn cais cynllunio.